# DINASYDDION YR – UE YMGEISIO I'R CYNLLUN PRESWYLIO'N SEFYDLOG I DDINASYDDION YR UE (EU SETTLEMENT SCHEME)

Llywodraeth EM

Mae'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EU Settlement Scheme) ar agor ac mae am ddim i ymgeisio. Gallwch gael mynediad at y cais ar **gov.uk/apply-eu-settled-status**.

## Gwybodaeth sylfaenol

Darparwch wybodaeth sylfaenol, fel eich enw, dyddiad geni, manylion cyswllt a chenedligrwydd.

### Prawf hunaniaeth

Gan ddefnyddio pasbort dilys, cerdyn adnabod cenedlaethol neu gerdyn preswylio biometrig (os ydych yn wladolyn o'r tu allan i'r UE), gallwch ddilysu eich hunaniaeth mewn sawl ffordd:

- defnyddio ap EU Exit ID Document Check
- anfon eich dogfennau hunaniaeth atom trwy'r post yn y Swyddfa Gartref
- ymweld â lleoliad gwasanaeth sganio dogfennau hunaniaeth. I weld rhestr o'r lleoliadau sy'n cynnig y gwasanaeth hwn, ewch i **gov.uk/eu-id-scanner-locations**.

Byd hefyd angen i chi ddarparu llun digidol ohonoch chi'ch hun, er mwyn gallu ei wirio yn erbyn eich dogfen hunaniaeth.

### Prawf preswylio

Darparwch eich rhif Yswiriant Gwladol, os oes gennych chi un.

Os nad oes gennych chi un, peidiwch â phoeni, gellir gweld rhestr o'r dystiolaeth awgrymedig a dderbynnir ar **gov.uk/eu-evidence-of-residence**.

### Gwiriad troseddoldeb

Datganwch unrhyw gollfarnau troseddol. Dim ond troseddoldeb difrifol neu barhaus fydd yn effeithio ar eich cais.

Ni fydd hyn yn effeithio ar y mwyafrif helaeth o ddinasyddion yr UE[1] ac aelodau eu teulu.

## Cymeradwyaeth

Yn amodol ar wiriadau ar y cais, byddwch yn cael statws wedi setlo neu statws preswylydd cyn-sefydlog yn ddibynnol ar ers faint ydych chi wedi byw yn y Deyrnas Unedig.

Byddwch yn cael prawf digidol o'ch statws trwy wasanaeth ar-lein. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd eich statws mewnfudo newydd yn cael ei roi o fewn ychydig wythnosau. Gallwch olrhain cynnydd eich cais ar-lein neu trwy gysylltu â'r Ganolfan Gymorth Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.

Unwaith y byddwch wedi derbyn eich statws, rhoddir manylion i chi trwy e-bost ar sut allwch chi gael mynediad iddo ar **GOV.UK**.

### Statws preswylydd cyn-sefydlog

Os oes gennych chi **lai na phum mlynedd** o breswylio parhaus yn y Deyrnas Unedig, byddwch yn gymwys i gael statws preswylydd cyn-sefydlog (a elwir hefyd yn ganiatâd cyfyngedig i aros neu fynediad). Mae hyn yn golygu y gallwch aros yn y Deyrnas Unedig am gyfnod o bum mlynedd, nes eich bod yn gymwys ar gyfer statws wedi setlo.

### Statws wedi setlo

Os oes gennych chi **bum mlynedd neu fwy** o breswylio parhaus yn y Deyrnas Unedig, byddwch yn gymwys i gael statws preswylydd-sefydlog (a elwir hefyd yn ganiatâd Amhenodol i aros neu fynediad (indefinite leave to remain or enter)). Mae hyn yn golygu nad oes terfyn amser ar ba mor hir y gallwch aros yn y Deyrnas Unedig.

Am ragor o wybodaeth ar Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EU Settlement Scheme), yn cynnwys y gefnogaeth sydd ar gael, ewch i **gov.uk/eu-settled-status**.

1 Defnyddir dinasyddion yr UE drwyddo draw i gyfeirio at ddinasyddion yr AEE a'r Swistir, sydd oll yn gymwys i ymgeisio i Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EU Settlement Scheme).